Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Brynhyfryd

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Brynhyfryd yn ysgol ofalgar lle rhoddir blaenoriaeth i les a chynnydd academaidd disgyblion. Llwyddir i gynnal amgylchedd dysgu diogel ble mae disgyblion a staff yn ffynnu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddel ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn i gymuned yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn arddel polisi drws agored ac wedi llwyddo i greu diwylliant o onestrwydd a chydweithio ymysg ystaff. Mae gan arweinwyr ar bob lefel adnabyddiaeth dda o'r prif gryfderau a'r agweddau sydd angen eu gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Daw hyn ar sail trefniadau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant newydd sy'n arfarnu'r ddarpariaeth yn ôl ei heffaith, er enghraifft yr effaith a gaiff yr addysgu ar safonau disgyblion. Gyda chefnogaeth uwch arweinwyr, mae'r pennaeth wedi datblygu gwerthoedd ysgol gyfan cytûn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

Trwy eu hadnabyddiaeth dda o'r disgyblion a'u hanghenion, mae staff yn darparu cefnogaeth fugeiliol ofalus. Mae'r systemau olrhain cynnydd academaidd a lles cynhwysfawr yn sicrhau bod staff yn adnabod unrhyw anawsterau sydd gan ddisgyblion unigol yn fuan ac yn cynnig cymorth amserol. Er bod presenoldeb disgyblion yn gyson dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'n parhau'n rhy isel o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig. Mae'r tîm sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud hyn yn llwyddiannus trwy ddarparu ymyraethau addas ac arweiniad clir i staff.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys a chynhwysol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Atgyfnerthir hyn gan ddewis o ystod eang o gyrsiau amrywiol sy'n cyd-fynd â dyheadau disgyblion hŷn yr ysgol. Ar y cyfan, mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas i sicrhau bod disgyblion yn gwneud datblygiad yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol. Fodd bynnag, nid oes strategaeth ysgol gyfan ddatblygedig i sicrhau datblygiad cynyddol disgyblion yn y medrau hyn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â'u disgyblion. Maent yn cynnal awyrgylch gwaith bositif ac, yn sgil hyn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau iach at eu gwaith ac mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Cefnoga'r athrawon hyn y disgyblion yn dda gan gynnig adborth llafar gwerthfawr wrth gylchu'r dosbarth. Serch hyn, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon ar waith disgyblion bob amser yn cynnig arweiniad digon clir iddynt ar sut i wella eu gwaith.

# Argymhellion

**A1** Gwella presenoldeb

**A2** Cryfhau ansawdd yr adborth mae disgyblion yn ei gael ar sut i wella’u gwaith

**A3** Cryfhau'r cydlynu strategol ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Brynhyfryd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1053 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 864 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 189 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.2%) | 7.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 17.8%) | 11.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 43.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/04/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/10/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.